Tud 1.

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr 7.9.23

Cyfarfod llawn namun un.

Datgan Buddiant – wrth son am paneli solar y Neuadd. Pawb namun un.

Croesawyd pawb I'r cyfarfod, a diolchwyd am y cyfarfod mis Awst parthed HAL. Estyn cydymdeimlad gyda Jason Coleman yn ei brofedigaeth o golli mamynghyfraeth. Pasiwyd bod y Cyngor yn anfon gair o gydymdeimlad gyda Gwen a Lynwen o golli Jean,

Derbyn cofnodion diwethaf fel rhai cywir, a diolchwyd I'r Clerc am gofnodi pwyllgor arbennig 3.8.23 parthed HAL. Rhain hefyd I roi ar y wefan yn awr, a cofnodion mis Gorffennaf.

ADRODDIAD CYLLID

Nodwyd bod £30230.53 yn y banc diwedd Awst.

Wedi derbyn £10000 presept.

Angen talu y canlynol I'w cymeradwyuo gan y cyngor:-

Ad daliad zoom I'r Clerc (5 mis ) £269.95

Torri Fynwent a gof golofn £357

Torri cae chwarae a Cae Deiliog £250

Angen penodi rhywu ychwanegol I helpu gyda'r gyllideb. Cytunodd Jane Taylor Williams I helpu'r Cadeirydd a'r Clerc.

Materion yn Codi

1. Y fynwent a never cut – Gwaith I'w wneud mis yma.
   Angen anfon polisiau ysiwriat I Robinsons parthed Gwaith y clawdd.
2. Ffordd Newydd – ennillion cyflum.

Gan bod ambell Gynghorydd wedi awgrymu y dylid ceisio cael cyfarfod gyda y Swyddog rheolwr prosiect – a'I gwahodd I Gyfarfod o'r Cyngor. Siom o'r mwyaf oedd deal na fydda hyn yn digwydd.

Pasiwyd felly I anfon at Dafydd Gibbard Prif Weithredwr cyngor Gwynedd I gwyno.

'Rydym yn cael cyfarfod fel o'r blaen ar y 29 o Fedi. Am 11.00 o'r gloch.

Yr holiadur wedi ei wneud. Faint gymerodd ran yn hyn?

Datgan siom yn y diffyg cyfathrebu. Bod y ddau Gynghorydd Sir hefyd wedi ceisio cael cyfarfod safle.

Nododd JTW bod yr arian wedi dod ers misoedd ar gyfer gwaith Llanbedr ond yn sylweddoli yn awr bydd corridor gwyrdd Ardudwy hefyd yn elwa. Arian Llanbedr yw hwn I fod.

Bod y marcers traffic, camerau diogelwch, monitoro swn a llygredd I fod wedi cael eu gosod cyn gwyliau haf. Diwedd Awst arnynt yn cael eu gosod. Cam ddehongli data felly.

Nododd Cyng. AH bod y counters ffordd wedi eu torri am gyfnod, ond wedi eu trwshio bellach. Dyna eto ddiffyg yn y data.

Adroddiad Cyngh Gwynfor Owen

1. Gwyl Gwrw ar y penwythnos – gwasanaeth trend dim ar gael. Heb gael gwybodaeth parthed amseroedd bysiau.
2. Cyfarfod 29.9.23 – rhwystredigaeth a siomiant. Yn gwrthod cyfarfod gyda'r Cyngor ymlaen llaw.
3. Cael rhywun o Blaenau Ffestiniog atom yn y Cyngor nesaf I drafod ceir trydan a scheme rhannu ceir.

Adroddiad Cygh Annwen Hughes

1. Bod y counters llif traffic wedi eu torri, ond bellach wedi eu trwshio.
2. Tim tacluso – wedi bod yn clirio ger y toiledau cyhoeddus yn ddiweddar.
3. Un toiled dal wedi cau. Mynd I gwyno parthed hyn.
4. Gwaith scaffoldiau yn yr Ysgol Gynradd – dim yn ymwybodol o beth sydd ar waith. Dim son yn y cyfarfod diwethaf o'r Llywodraethwyr.

Pwyllgor 3.8.23

Cafwyd pwyllgor adeiladol iawn . Cais am I ni gynnal cyfarfod arall ym mis Hydref.

Pasiwyd bod pob Cyngor yn ail drafod y sefyllfa ariannol y neu cyfarfodydd Mis Medi. Argymell eu bod yn parhau I gyfrannu tan ddiwedd Mawrth 2024. Rhoi mwy o amser iddynt yn HAL gael trefn, a cael dyfarniadau rhai grantiau yn ol erbyn hynny – 6 mis.

Holi hefyd a'I cwmni preifat neu cwmni cymunedol yw HAL. Ac a oes gan y Cynghorau hawl I roi cyfranniadau ariannol at gwmniau preifat?

Polisi Amgylcheddol – draft o hwn wedi ei gynllunio. Angen ei gyfieuthu I'r saesneg.

Mae ambell beth ddim yn gyson ganddom fel Cyngor parthed y polisi.

1. Rydym yn torri gormod o wellglas – cae deiliog a fynwent.
2. Wrth gadw rhai mannau oyn wyllt gellid arbed arian – a'I dorri unwaith y flwyddyn.
3. Gwrych ar derfyn cae chwarae a'r afon . Bod angen ei dorri yn ol eto. Angen cael pris ar wneud y Gwaith yma.

LLWYBRAU

Nododdd JTW bod llwybr 7 Graig Fawr wedi ei wneud/

Llwybr 62 hefyd

Angen torri llwybrau o amgylch Coed Llety Walter – Coed Mawr.

Beth sydd yn digwydd ar lwybr 1 clawdd llanw?

Angen arwydd ger Gellibant yn nodi llwybr cyhoeddus I lawr at Hendre Waelod.

Llwybr ger Gilfach Goch yn dal heb ei wneud.

Materion Cyngor Gwynedd – prif ffordd

Tud 3.

1. Angen arwyddion man pasio ffordd Cypla.
2. Wal gerrig yn chwalu ar y tro ger maes picnic.
3. Parcio mewn mynedfa ger y Wenallt – yn rhwystro y tir feddiannwr rhag mynd a dwad o'I eiddo.
4. Rhiw Garth Goch – tyllau eto.

Hysbysu Cyngor Gwynedd o hyn I gyd.

Gorsaf dren -  Talwrn Bach – Y clerc am anfon unwaith eto parthed cael bin baw cwn rhywle ger yr orsaf  dren.  Yn y gobaith o gael bin sbwriel ar y platform.

HAL – pasiwyd I gynnal y pwyllgor yma gyda Cynghorau lleol ar y 11.10.23 am 7.30 yn y Neuadd Llanbedr.